## Swyddogaethau

**Monitoriaid:**

1. Llunio poster yn nodi defnydd ynni'r Ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf a'i arddangos ar wal yn yr Ysgol
2. Llunio graff yn dangos defnydd ynni misol yr Ysgol a'i arddangos ar wal yn yr Ysgol
3. Defnyddio darlleniadau misol y mesuryddion, neu system fonitro arall (megis 'Systems Link' neu 'Save Energy Online') i edrych ar batrymau defnydd ynni, ac ymchwilio i unrhyw ddefnydd anghyffredin.
4. Penderfynu ar darged i leihau defnydd Ynni'r Ysgol ar ôl trafodaeth. Cyhoeddi'r targed lleihau hwn i weddill yr ysgol.
5. Defnyddio gwefan SunnyPortal i fonitro faint o drydan mae'r paneli solar yn ei gynhyrchu. Defnyddio'r wybodaeth yma i gynhyrchu graff sydd yn cymharu faint o drydan mae'r paneli solar yn ei gynhyrchu gyda faint o drydan mae'r ysgol yn ei ddefnyddio. Arddangos y graff yma ar wal yn yr ysgol.
6. Ar ddiwedd y flwyddyn, adolygu defnydd ynni'r Ysgol dros y flwyddyn

**Archwilwyr:**

7. Gwirio arferion disgyblion ac athrawon yn ystod amser cinio drwy fod yn 'Dditectifs Ynni'. Bydd angen dewis ambell i ddosbarth neu ystafell sydd yn wag amser cinio er mwyn cofnodi pa offer sydd yn cael ei ddiffodd a pa offer sydd yn cael ei adael ymlaen hyd yn oed pan does neb yn ei ddefnyddio. Bwriad hyn yw gweld os oes cyfle i ddylanwadu ar ymddygiad pobl i arbed ynni, h.y. gofyn iddyn nhw wneud rhywbeth yn wahanol.
8. Darganfod beth yw agweddau disgyblion a staff tuag at arbed ynni trwy gwblhau holiadur. Gwneud hyn ar ddechrau'r flwyddyn, gan holi'r un bobl ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn darganfod os yw eu hagweddau wedi newid ers i chi gychwyn ymgyrchu i arbed ynni.
9. Cynhaliwch archwiliad ynni manwl er mwyn adnabod os oes cyfle i leihau defnydd ynni drwy wella'r adeilad ac offer. Bydd archwiliad mawl yn edrych ar gyflwr adeilad, ffenestri, drysau ayb, faint o offer sydd mewn ystafell a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli, sut oleuadau sydd yn yr ystafell, sut system wresogi, a mwy.
10. Yn dilyn yr archwiliadau, bydd angen i'r Grŵp drafod y canlyniadau a syniadau ar sut i arbed ynni yn yr ysgol.

**Ymgyrchwyr:**

11. Ystyried datblygu polisi ynni ar gyfer yr Ysgol
12. Trafod syniadau i ymgyrchu i arbed ynni a datblygu Cynllun Gweithredu. Gall y cynllun gweithredu gynnwys amcanion megis:
    a. Llunio arwyddion / posteri
    b. Cynnal gwasanaeth
    c. Paratoi gwybodaeth am arbed ynni i fynd ar wefan yr ysgol
    d. Cynnal trafodaeth gyda staff allweddol i drafod dulliau o arbed ynni e.e. staff y gegin, staff glanhau, Y Gofalwr
    e. Cydweithio gyda'r Pennaeth er mwyn gyrru neges allan i bawb cyn gwyliau ysgol i sicrhau fod man offer yn cael eu diffodd dros y gwyliau
13. Cysylltu â'r gymuned leol er mwyn rhoi cyngor ar arbed ynni

**Cyfarfodydd Grŵp cyfan:**

14. Trafod canlyniadau a darganfyddiadau. E.e.
    a. Os yw monitoriaid yn darganfod defnydd anghyffredin o ynni - holi'r archwilwyr rhag ofn eu bod wedi sylwi ar rywbeth fyddai'n effeithio defnydd ynni'r ysgol
    b. Os yw archwilwyr yn sylwi fod llawer o offer yn cael ei adael ymlaen mewn dosbarth neu ystafell benodol yn gyson, trafod gyda'r Ymgyrchwyr er mwyn targedu'r ystafell / dosbarth yma i leihau defnydd o ynni
15. Trafod syniadau sut i arbed ynni yn yr ysgol a chyflwyno'r syniadau hyn i'r Llywodraethwyr a Thîm Cadwraeth Ynni Cyngor Gwynedd.
16. Datblygu cyfarwyddiadau ar gyfer grŵp newydd a fydd yn gyfrifol am y gwaith ar ôl yr haf.